P2021-866

SWANSEA UNIVERSITY
PRIFYSGOL ABERTAWE

Minutes of a meeting of the
CORPORATE RESPONSBILITY COMMITTEE
held on 1st February 2021

Cofnodion cyfarfod y
PWYLLGOR CYFRIFOLDEB CORFFORAETHOL
a gynhaliwyd 1af Chwefror 2021

Present: **Yn bresennol:**	Greg Ducie (Cadeirydd); Dr Heidi Smith (Pennaeth Cynaliadwyedd); Louise Nowell (Pennaeth Iechyd a Diogelwch); Andy Walters (Swyddog Parhad a Gwytnwch Busnes); Gareth Evans (Cynrychiolydd yr Undeb); Simon Davies (Rheolwr Risgiau); William Walker (UCU – Cynrhychiolydd yr Undeb); Dr Joel Loveridge (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Peryglon Biolegol a GMO); Kevin Thomas Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifoldeb Corfforaethol, Coleg Peirianneg; Mark Pritchard (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Diogelwch Cemegol) Catherine Jenkins (Rheolwr Iechyd Galwedigaethol)
In Attendance: **Yn presennol:**	
Apologies: **Ymddiheuriadau:**	Yr Athro. Mike Charlton (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Ymbelydredd); Andy Lee (Ymgynghorydd Diogelwch Gwyddonol) Andrew Harvey (UCU – Cynrychiolydd yr Undeb)

1. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 21ain HYDREF 2020

CADARNHAWYD cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain Hydref 2020.

2. MATERION YN CODI

Ni chafwyd materion

3. BUSNES Y CADEIRYDD

Mae paratoadau ar waith ar gyfer dychweliad y myfyrwyr ar ôl y Pasg sy'n dibynnu ar arweiniad Llywodraeth Cymru a gaiff ei ryddhau'n nes at yr amser.

SECTION A – Issues for decision
ADRAN A – Materion i'w trafod

4. STRATEGAETH CYNALIADWYEDD CORFFORAETHOL A NEWID YN YR HINSAWDD 2020-2025 (P2021-671)

Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r Pennaeth Cynaliadwyedd a'r tîm Cynaliadwyedd ar ddatblygu'r Strategaeth Cynaliadwyedd Corfforaethol a Newid yn yr Hinsawdd. Cyflwynodd y Pennaeth Cynaliadwyedd y strategaeth i'r pwyllgor ac esboniodd ei bod yn disodli'r strategaeth bresennol a bydd yn mynd i'r Uwch-dîm Rheoli i'w chymeradwyo. Mae'r strategaeth yn nodi ymrwymiadau lefel uchel ac amcanion a thargedau penodol a gaiff eu hamlinellu mewn cynlluniau gweithredu Systemau Rheoli Amgylcheddol. Ceir mân ddiwygiadau i'r dudalen we Cynaliadwyedd a'r System Rheoli Amgylcheddol. Holodd aelod o'r pwyllgor ynghylch dyddiadau'r strategaeth, gan awgrymu y dylid ei rhoi ar waith yn y cyfnod 2021-2026.

CYTUNWYD y dylid anfon y strategaeth i'r Uwch-dîm Rheoli i'w chymeradwyo. Bydd y Pennaeth Cynaliadwyedd hefyd yn adolygu dyddiad y strategaeth ac yn cadarnhau ei fod yn dderbyniol o safbwynt archwiliad Systemau Rheoli Amgylcheddol.

GWEITHREDU: HS

SECTION B – Issues for adoption or approval without discussion
ADRAN B – Eitemau i'w mabwysiadu neu i'w cymeradwyo heb drafodaeth

5. MABWYSIADU COFNODION YR IS-BWYLLGOR BIOLEGOL A GMO A GYNHALIWYD AR 13fed Ionawr 2021 (P2021-653)

MABWYSIADWYD cofnodion cyfarfod diwethaf yr Is-bwyllgor, a gynhaliwyd ar 13fed Ionawr 2021**.**

6. MABWYSIADU COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR YMBELYDREDD ÏONEIDDIO A GYNHALIWYD AR 21ain Ionawr 2021

Oherwydd dyddiad y cyfarfod, nid oedd y cofnodion ar gael eto.

7. MABWYSIADU COFNODION YR IS-BWYLLGOR CEMEGOL A GYNHALIWYD AR 20ain Ionawr 2021 (P2021-652)

MABWYSIADWYD cofnodion cyfarfod diwethaf yr Is-bwyllgor, a gynhaliwyd ar 20ain Ionawr 2021.

SECTION C – Information Items
ADRAN C – Eitemau Gwybodaeth

8. COFRESTR RISGIAU

Rhoddodd y Rheolwr Risgiau y diweddaraf am y gofrestr risgiau i'r pwyllgor ac awgrymodd y dylid llunio un gofrestr risgiau ar gyfer Cyfrifoldeb Corfforaethol ar draws y Brifysgol. Codwyd y pwyntiau canlynol i'w trafod;

- O safbwynt cyfadran, byddai gweld y risgiau i'r Brifysgol o fudd.
- Ni ddylid cymryd y cyfrifoldeb am reoli risgiau oddi ar y gyfadran a pherchnogion y risgiau ddylai fod yn gyfrifol am y cofrestrau risgiau.
- Nod y rôl hon yn y Pwyllgor Cyfrifoldeb Corfforaethol yw goruchwylio risgiau i'r cyfadrannau a thynnu sylw at risgiau sydd â goblygiadau ehangach i'r

Brifysgol/ni ellir eu rheoli neu weithredu arnynt ar lefel y gyfadran/Uned Gwasanaeth Proffesiynol.

CYTUNWYD y trafodir ymhellach a rhoddir yr wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

Gweithredu: SD ac AW

Cynaliadwyedd

9. ADOLYGIAD RHEOLI BLYNYDDOL Y SYSTEM RHEOLI AMGYLCHEDDOL 2019-20

Rhoddodd y Pennaeth Cynaliadwyedd y diweddaraf i'r pwyllgor am yr archwiliad ar y System Rheoli Amgylcheddol, a ohiriwyd oherwydd COVID. Cynhelir yr archwiliad ailachredu (bob tair blynedd) rhwng 21ain a 25ain Mehefin 2021.

Iechyd a Diogelwch

10. TREFNIADAU COVID-19

11. CYMORTH CYNTAF

12. LEGIONELLA

13. BLAENORIAETHAU

14. GOHEBIAETH

15. BUSNES ARALL

Ni chafwyd busnes arall

16. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Gohirir y cyfarfod a oedd i'w gynnal ym mis Mawrth a chynhelir y cyfarfod nesaf ar 12fed Ebrill 2021.

SECTION D – Restricted Items
ADRAN D – Eitemau Cyfyngedig

17. BUSNES WRTH GEFN

Ni chafwyd busnes wrth gefn